


Y fryngaer ar Ben Dinas, Aberystwyth


Pen Dinas yw'r fryngaer fwyaf yng Ngheredigion. Mae hi ar fryn arfordirol sydd â dau gopa. Mae hi dros 2,000 o flynyddoedd oed. Cafodd ei hadeiladu tua 400 CC gan Geltiaid Oes yr Haearn, a'i meddiannu hyd nes i'r Rhufeinwyr gyrraedd Ceredigion tua OC 70. Dechreuodd fel caer fach ar y copa gogleddol.



Adluniadau gan Toby Driver. Edrychai Pen Dinas rywbeth fel hyn 2,000 o flynyddoedd yn ôl (h)CBHC

Yna cafodd caer ei chodi ar y copa deheuol mwy serth. Roedd gan yr ail gaer byrth uchel, cryf. Yn nes ymlaen cafodd y culdir (*isthmus*) rhwng y ddau gopa ei amddiffyn gan ragfuriau

uchel a phorth cryf arall. Roedd gan bob un o byrth y gaer goridor wedi'i wynebu â cherrig, a phedwar postyn enfawr yn y corneli a oedd yn cynnal pont bren. Roedd gan y pontydd lawr o glai. Byddai milwyr yn gwarchod y pontydd ac yn edrych i lawr ar bawb a fyddai'n dod at y gaer.



The isthmus gateway



Roedd tua 12 o dai crwn o Oes yr Haearn yn y gaer ddeheuol. Allwch chi weld lle'r oeddynt? Pa mor fawr oeddynt? Mae'r darlun yma (chwith) yn rhoi syniad o sut yr oeddynt yn edrych. Byddai'r Celtiaid wedi ffermio ar y llethrau o gwmpas ac wedi pysgota yn yr afonydd a'r môr.

Mae Pen Dinas yn lle tawel heddiw. Allwch chi ddychmygu'r holl fwg a sŵn pan oedd yn bentref prysur?

Cyn yr Ail Ryfel Byd darganfu archaeolegwyr dystiolaeth o waith metel a gwehyddu yn y gaer. Mae darganfyddiadau diweddar yn cynnwys nifer o gerrig bach crwn o'r traeth a oedd mae'n debyg yn 'gerrig tafl' a gâi eu defnyddio gan ryfelwyr Oes yr Haearn yn erbyn ymosodwyr. Mae darn arian Rhufeinig a chleddyf o ddyddiad anhysbys wedi cael eu darganfod hefyd. Colofn garreg a godwyd ym



1858 ar gopa'r gaer ddeheuol ym Mhen Dinas i goffáu Dug Wellington yw **Cofgolofn Wellington**. Cafodd ei tharo gan fellt a'i difrodi ym 1997. Mae wedi cael ei thrwsio erbyn hyn.



(Uchod) Cerrig tafl a ddarganfuwyd ym Mhen Dinas ar ôl tân rhedyn. Roedd y rhain yn arfau angheuol yn y dwylo iawn ac yn gallu lladd dyn 100 m i ffwrdd.

(Chwith) Cloddiadau ym mhorth deheuol Pen Dinas ym 1933-37. Mae'r gweithwyr wedi cloddio muriau cerrig anhygoel y gaer sydd wedi goroesi o dan y glaswellt.